Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail
# Stryd yr Ysgol
# Tonyrefail
# Porth
# Rhondda Cynon Taf
# CF39 8LE

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru



**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Tonyrefail ym mhentref Tonyrefail yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.

Ar hyn o bryd, mae 209 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae wyth dosbarth yn yr ysgol gydag un o oedran cymysg. Tua 13% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 42% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw tua 18% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a dysgu ar draws yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Nid oes disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012. Cafodd y pennaeth ei phenodi i'r swydd ym Medi 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn 2016-2017 yw £2,924. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Rhondda Cynon Taf yw £6,385 a'r lleiafswm yw £2,438. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn safle 82 o'r 104 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda
- medrau darllen ac ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn y ddwy iaith yn datblygu'n dda
- ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn dangos balchder a diddordeb yn eu gwaith
- yr ysgol yn creu ethos Cymreig llwyddiannus
- gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir i'r ysgol sy'n seiliedig ar ddatblygu disgyblion i'w llawn botensial
- y pennaeth wedi llwyddo i greu ethos cryf o waith tîm yn yr ysgol
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach
- diwylliant o hunanarfarnu parhaus yn bodoli yn yr ysgol a threfniadau cadarn i fonitro safonau addysgu a dysgu
- yr ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith

A2 Sicrhau bod tasgau dysgu yn herio'r holl ddisgyblion yn gyson, yn enwedig y rhai mwyaf abl

A3 Sicrhau cysondeb mewn marcio fel bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

A4 Codi cyfraddau presenoldeb disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol islaw'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda dros amser.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae medrau llafar y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn mynegi barn yn aeddfed am wahanol destunau ac yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eraill. Mewn trafodaethau dosbarth, mae llawer ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig ac yn trafod eu syniadau yn ddeallus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn symud o un iaith i'r llall yn llwyddiannus wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y ddwy iaith yn datblygu'n llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda mynegiant cynyddol. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau ac yn medru trafod cynnwys llyfrau yn ddeallus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod addas o lyfrau ffuglen a ffeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trafod llyfrau a'u hoff awduron yn effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o gymeriadau a digwyddiadau o fewn straeon. Mae disgyblion hŷn yn medru brasddarllen testun i ddeall ei ystyr a chasglu gwybodaeth yn llwyddiannus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da â'u hysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n effeithiol i ddisgrifio digwyddiadau a chreu storïau gan ddefnyddio atalnodi cywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n annibynnol ac yn gywir mewn gwahanol ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft mewn gwyddoniaeth ac addysg grefyddol. Fodd bynnag, ar adegau, mae taflenni gwaith yn llesteirio ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus ac maent yn defnyddio llawysgrifen glir.

Mae medrau rhif rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau rhif a mesur yn effeithiol, er enghraifft wrth fesur tymheredd a'i gofnodi mewn graddau addas. Mae rhan fwyaf yn defnyddio arian yn hyderus wrth dalu am eitemau mewn siop ac yn gwybod faint o newid a geir o wahanol werthoedd. Maent yn casglu data a'i gymhwyso yn effeithiol, er enghraifft wrth greu graff o wahanol fathau o adeiladau yn Nhonyrefail. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad am eu gwaith drwy ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ffracsiynau, degolion ac onglau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau, er enghraifft drwy ddefnyddio graddfa 0-10 i ddisgrifio tebygolrwydd a digwyddiadau. Gallant ymdrin â rhifau sydd yn cynnwys rhifau negyddol yng nghyd-destun y tywydd gan wybod y gwahaniaeth rhwng dwy ardal sydd ag ystod tymheredd eang. Maent yn trin a dadansoddi data yn hyderus ac yn trosglwyddo eu medrau rhifedd yn dda i feysydd eraill ar draws y cwricwlwm, er enghraifft mewn gwers daearyddiaeth wrth gynhyrchu graffiau priodol i ddangos glawiad misol yng Nghaerdydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws y cwricwlwm. Maent yn creu posteri, tablau a graffiau addas. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio rhaglenni TGCh a llechi yn hyderus iawn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio TGCh yn llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth mewn amryw o ffyrdd diddorol, er enghraifft wrth greu blogiau a phecynnau cyflwyno addas. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol ac yn ddiogel i chwilio am wybodaeth ynglŷn â gwahanol destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn creu taenlenni yn hyderus wrth astudio gwahanol agweddau o wyddoniaeth.

Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi bod o dan y canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, dros yr un cyfnod, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros yr un cyfnod wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y lefel uwch yn gyffredinol wedi bod yn 50% is neu'r 25% isaf.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd yn derbyn cymorth ar gyfer llythrennedd, yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae bron pob un disgybl sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd pwrpasol yn unol â'u gallu.

**Lles: Digonol**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn dangos balchder a diddordeb yn eu gwaith. Maent yn ymateb i weithgareddau'r ysgol yn hyderus ac yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan flaenllaw ar y cyngor ysgol, y cyngor eco ac fel llysgenhadon a swyddogion. Trwy'r cyfryngau hyn, mae'r rhan fwyaf yn cael cyfle i fynegi barn a gwneud penderfyniadau cadarn sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn rhan effeithiol o'r broses i ailaddasu polisïau amrywiol yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n dda i godi arian ar gyfer gwahanol elusennau a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned leol, er enghraifft maent yn weithgar iawn yn plannu hadau fel rhan o brosiect eco. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn effeithiol. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel 'Bydis' yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae lefelau presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae strategaethau newydd i wella presenoldeb yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y gyfradd presenoldeb ddiweddaraf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol yn briodol.

Mae'r athrawon wedi ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynlluniau hir dymor ac wythnosol. Mae ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn rheolaidd. Fodd bynnag, ar adegau, mae taflenni gwaith yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ymestyn eu hysgrifennu estynedig.

Mae ethos Cymreig llwyddiannus yn yr ysgol ac mae'r ddarpariaeth yn cynnig llawer iawn o gyfleoedd addas i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cyfathrebu yn yr iaith gyda balchder. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Trwy ymweliadau â safleoedd hanesyddol, astudiaethau o ddigwyddiadau lleol, fel trychineb Aberfan, a chymryd rhan mewn eisteddfodau'r ysgol a'r Urdd, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth.

Mae'r addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae gan ddisgyblion wybodaeth gynhwysfawr am y byd trwy gefnogi gwahanol elusennau ac astudio digwyddiadau cyfredol fel etholiad yr arlywydd newydd yn yr Unol Daleithiau. Mae'r cyngor eco yn hyrwyddo dealltwriaeth ddisgyblion o gynaliadwyedd yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi bod yn rhan o brosiect arbennig i ddadansoddi effaith newid hinsawdd ar yr amgylchedd.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau adeiladol ac adnoddau pwrpasol i hybu'r dysgu. Mae cydweithio effeithiol iawn rhwng staff a disgyblion yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Yn y dosbarthiadau, mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at ansawdd dysgu'r disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus ac yn holi'n dreiddgar i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau. Mae rheolaeth dosbarth a chyflymdra'r sesiynau addysgu yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn weithgar iawn yn y gwersi. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn modelu iaith yn effeithiol ac mae hyn yn cyfrannu at gryfhau iaith lafar y disgyblion.

Yn yr ychydig o wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion, yn arbennig i'r rhai mwyaf galluog.

Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon ac arweinwyr yn gwneud defnydd da o ddata i fonitro cynnydd y disgyblion ac i drefnu cymorth yn ôl yr angen. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob amser yn dangos i ddisgyblion sut i wella eu gwaith.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd eu plant ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae cysylltiadau llwyddianus iawn gyda'r eglwys a'r capeli lleol. Gwahoddir y gweinidog lleol i'r ysgol yn rheolaidd i gynnal gwasanaethau ar achlysuron arbennig, fel y cynhaeaf ac adeg y Nadolig. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les ac agweddau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau a gwasanaethau arbenigol, er enghraifft y nyrs, seicolegydd addysg, yr heddlu a'r swyddogion gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn gymorth gwerthfawr i'r disgyblion. Mae swyddog lles yr ysgol yn hybu pwysigrwydd presenoldeb da trwy lythyron i rieni yn dymhorol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod yn fuan y disgyblion sydd angen cefnogaeth ac yn darparu ymyrraeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae cynlluniau addysg unigol addas ar gyfer y disgyblion, ond o fewn ychydig ohonynt mae gormod o bwyslais ar agweddau o ramadeg a sillafu elfennol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni a chânt eu cynnwys yn llawn wrth osod targedau a'u hadolygu'n rheolaidd. Gwneir defnydd

effeithiol o wasanaethau arbenigol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth penodol a mwy dwys. Mae'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae yna ethos cymunedol, croesawgar a gofalgar drwy'r ysgol. Mae'r holl staff yn hybu ymddygiad da'r disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn seiliedig ar werthoedd cadarnhaol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos goddefgarwch, tegwch a pharch at eraill. Caiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae cynrychiolaeth dda o fechgyn a merched ymhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Er gwaethaf natur yr hen adeiladau, mae'r safle yn addas ac wedi'i gynnal a chadw'n dda. Mae'r arddangosfeydd ar y waliau ar draws yr ysgol yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeiladau i gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn elwa o'r ardal ddysgu awyr agored bwrpasol sy'n cymell eu dysgu yn briodol. Ceir ystod addas o adnoddau dysgu i gefnogi holl feysydd y cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir i'r ysgol sy'n seiliedig ar ddatblygu disgyblion i'w llawn botensial. Caiff ei chefnogi'n effeithiol gan yr uwch dîm rheoli a'r staff ymroddgar. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi llwyddo i greu ethos cryf o waith tîm yn yr ysgol.

Mae gan yr arweinwyr rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn cyfathrebu'n llwyddiannus iawn â'i gilydd ac yn herio tanberfformio. Mae'r arweinwyr a'r staff yn cyfarfod yn gyson i drafod a chynllunio ar y cyd gan ganolbwyntio'n glir ar ddeilliannau'r disgyblion ac ar flaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae'r athrawon yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth a'r adnoddau ar gyfer y defnydd o TGCh yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r corff llywodraethol yn ymroddedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol. Maent yn cryfhau eu dealltwriaeth o safonau a lles y disgyblion trwy gynnal ymweliadau rheolaidd i ddosbarthiadau. Maent yn dadansoddi data perfformiad yn gyson ac yn adnabod pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill tebyg. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn herio'n bwrpasol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu yn bodoli yn yr ysgol a threfniadau cadarn i fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod y broses monitro yn cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion a gwerthuso cynlluniau. Mae'r adroddiadau monitro yn fanwl a dadansoddol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu'n glir. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer ystyried barn llywodraethwyr, staff a disgyblion.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn ddogfen fanwl a dadansoddol. Mae staff yr ysgol yn ei thrafod yn drylwyr a'i hadolygu'n effeithiol. Mae cyfraniad y llywodraethwyr i'r broses o graffu ar lyfrau ac ymweld â dosbarthiadau yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus. Mae cyswllt clir rhwng y ddogfen hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau a datblygu'r ddarpariaeth. Mae'n rhoi sylw da i flaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwelliant, ynghyd ag adolygiad mawl o'r cynnydd mewn perthynas â thargedau'r cynllun blaenorol. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n effeithiol ac yn cynnwys amserlen gweithredu glir a chyfrifoldebau staff penodol er mwyn bodloni'r blaenoriaethau.

Mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yr arolygiad diwethaf yn gadarn. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi cydnabod yn ei chynllun datblygu bod mwy o waith i'w wneud i herio'r disgyblion mwy galluog.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae perthynas werthfawr gyda'r rhieni ac maent yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol, er enghraifft wrth gynorthwyo'n gyson gyda'r clybiau chwaraeon. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn gyson am wahanol weithdrefnau drwy wefannau cymdeithasol a chylchlythyron rheolaidd. Mae'r pennaeth a'r athrawon wedi creu llyfryn mathemateg addas ar gyfer y rhieni i ddangos dulliau cyflwyno rhifedd i'w plant.

Mae cydweithio llwyddiannus gyda'r cylch meithrin yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin. Mae perthynas glos gyda'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol i sicrhau trosglwyddo esmwyth i'r cam nesaf yn addysg y disgyblion. Er enghraifft, caiff y disgyblion gyfleoedd da i fynychu gwahanol gyfleusterau'r ysgol uwchradd, fel yr adrannau dylunio a thechnoleg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd i sicrhau dilysrwydd asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gryfhau lles y disgyblion. Er enghraifft, gwneir defnydd da o wasanaethau'r awdurdod lleol, y gwasanaethau iechyd a'r heddlu. Mae cysylltiadau buddiol gydag ystod o fusnesau a'r gymuned leol i gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'r gymdeithas ehangach a'r byd gwaith. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus â chwmni 'GreenPower' i adeiladu cerbyd ar gyfer cystadleuaeth arbennig.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae’r trefniadau’n cael eu rheoli’n effeithiol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae rhwydweithiau llwyddiannus yn bodoli gydag ysgolion eraill sy’n cynnig cyfleoedd i athrawon a chynorthwywyr dosbarth ddatblygu’n broffesiynol. Mae’r cysylltiadau ag ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon gyfnewid arfer dda. Er enghraifft, maent yn arsylwi arfer dda ar sut y gall rhieni helpu eu plant ddarllen adref. Mae hyn wedi cyfrannu’n sylweddol at wella medrau darllen disgyblion.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus ac mae’r gwariant yn cysylltu’n glos â chynlluniau gwella’r ysgol. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella medrau a safonau grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

O ystyried safonau cynnydd a chyflawniadau’r disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6742272 - Ysgol Gymraeg Tonyrefail**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 233 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 34 | 25 | 27 | 25 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 61.8 | 84.0 | 85.2 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 25 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 61.8 | 88.0 | 88.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.7 | 32.0 | 25.9 | 36.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 25 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 70.6 | 84.0 | 88.9 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.8 | 36.0 | 33.3 | 24.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 25 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.4 | 96.0 | 92.6 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.1 | 48.0 | 37.0 | 52.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6742272 - Ysgol Gymraeg Tonyrefail**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 233 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 20 | 28 | 35 | 40 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 96.4 | 82.9 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 28 | 35 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 96.4 | 82.9 | 92.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 15.0 | 42.9 | 37.1 | 32.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 28 | 35 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 96.4 | 82.9 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 15.0 | 32.1 | 31.4 | 32.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 28 | 35 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.0 | 96.4 | 88.6 | 92.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 10.0 | 35.7 | 37.1 | 47.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 28 | 35 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.0 | 96.4 | 91.4 | 92.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 5.0 | 32.1 | 37.1 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 98 | 93<br>95% | 5<br>5% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 87<br>89% | 11<br>11% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 98 | 89<br>91% | 9<br>9% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 94<br>96% | 4<br>4% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 89<br>91% | 9<br>9% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 97<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 97 | 95<br>98% | 2<br>2% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 88<br>90% | 10<br>10% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 83<br>85% | 15<br>15% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 91<br>93% | 7<br>7% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 72<br>73% | 26<br>27% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 81<br>83% | 17<br>17% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 26 | 11 | 9 | 1 | 5 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 42% | 35% | 4% | 19% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 15 | 5 | 5 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 58% | 19% | 19% | 4% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 14 | 11 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 26 | 9 | 14 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 35% | 54% | 8% | 4% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 25 | 7 | 17 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 28% | 68% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 9 | 15 | 2 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 35% | 58% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 10 | 15 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 38% | 58% | 4% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 26 | 9 | 14 | 2 | 1 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 35% | 54% | 8% | 4% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 10 | 5 | 3 | 6 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 42% | 21% | 12% | 25% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 25 | 10 | 15 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 25 | 11 | 9 | 3 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 44% | 36% | 12% | 8% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 24 | 10 | 8 | 3 | 3 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 42% | 33% | 12% | 12% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 26 | 9<br>35% | 14<br>54% | 3<br>12% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 24 | 12<br>50% | 5<br>21% | 2<br>8% | 5<br>21% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 22 | 8<br>36% | 7<br>32% | 2<br>9% | 5<br>23% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 25 | 10<br>40% | 13<br>52% | 1<br>4% | 1<br>4% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 23 | 8<br>35% | 12<br>52% | 3<br>13% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 26 | 10<br>38% | 14<br>54% | 2<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 24 | 10<br>42% | 7<br>29% | 2<br>8% | 5<br>21% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Richard Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Downes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.